Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Benllech
# Uned Mathafarn
# Ysgol Goronwy Owen
# Benllech
# Ynys Môn
# LL74 8SG

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Benllech

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Benllech |
| Categori'r gofal a ddarperir | |
| Person(au) cofrestredig | Rachael Barber |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Natalie Hajbok |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at ddau dymor | 8 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at bum tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Ar agor bob dydd ar gyfer addysg gynnar rhwng 8.50 a 10.50. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg a defnyddir y Gymraeg yn rheolaidd trwy gydol y sesiynau. |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r lleoliad yn darparu Cynnig y Gymraeg. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 14/10/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 20/01/2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/02/2022 |
| Penodwyd arweinydd y lleoliad i'w rôl arwain ym mis Medi 2021. Roedd hi'n cael ei chyflogi yn y lleoliad yn y gorffennol fel arweinydd ar y cyd, gyda chydweithiwr arall profiadol o fis Ionawr 2021. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Cofnodi ymatebion a’r camau a gymerwyd ynghylch digwyddiadau

A2 Yn unol â chynllun datblygu’r lleoliad, cynyddu cyfleoedd i ymarferwyr ddefnyddio’r Gymraeg yn ystod chwarae plant

A3 Gwerthuso effaith cwricwlwm datblygol y lleoliad ar gynnydd plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith ynglŷn â meithrin annibyniaeth a hyder plant trwy ddisgwyliadau uchel a pherthnasoedd cefnogol, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob un o'r plant yn llwyddo yn y lleoliad ac mae eu lles yn ffynnu. Mae ganddynt lais cryf, ac yn gwneud dewisiadau â hyder. Mae plant yn symud o'r ardaloedd chwarae dan do i'r awyr agored yn annibynnol, ac yn cynnal diddordeb am gyfnodau amser estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n hyderus. Er enghraifft, maent yn gofyn i ymwelwyr eu henwau ac i esbonio pwy ydyn nhw. Mae llawer ohonynt yn siarad am eu hanifeiliaid anwes ac yn dangos sut gallant ddefnyddio iaith arwyddion ar gyfer y gair 'ci'. Mae ychydig o blant yn mynegi eu dymuniadau trwy ystumiau a mynegiannau'r wyneb, ac ymatebir i'w ceisiadau mewn modd amserol. Mae llawer o blant yn siarad am eu hoff weithgaredd ac yn dangos sut gallant neidio i mewn i'r pwll tywod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefel uchel o wydnwch. Maent yn ymdopi'n eithriadol o dda o gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr gan fod arferion dyddiol yn cydnabod ac yn cefnogi eu hanghenion unigol. Maent yn ffynnu ac yn datblygu hyder trwy gyfleoedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain am beth hoffen nhw chwarae ag ef. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfarch eu ffrindiau trwy wenu, ac yn hongian eu cotiau a'u bagiau yn annibynnol. Mae'r plant iau yn teimlo'n gyfforddus wrth iddynt gael newid eu clwt wrth iddynt wrando ar yr ymarferwr yn sgwrsio â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yng nghwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr. Mae ganddynt synnwyr cryf o berthyn, gan ffurfio perthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn dweud wrth eu ffrind mai ef/hi yw eu 'ffrind gorau' ac mae hyn yn eu gwneud yn hapus. Maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amseroedd prydau bwyd ac yn dangos diddordeb pan fydd eu ffrind yn sgwrsio am beth sydd yn eu blwch cinio. Mae plant yn mynd at ymarferwyr yn gysurus a hyderus, neu'n eistedd ar eu glin i gael cwtsh pan fyddant yn teimlo'n flinedig.

Trwy gydol eu gweithgareddau chwarae, mae bron pob un o'r plant yn ymgysylltu'n llawn, ac yn dangos parch at eu teganau, adnoddau ac at ei gilydd yn gyson. Cânt eu cynnwys yn barhaus mewn gwneud penderfyniadau am beth maen nhw eisiau ei wneud, a dangosant ymwybyddiaeth dda o reolau sy'n cadw pobl eraill yn ddiogel. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, dywedodd plentyn ei fod wedi colli jeli ar y llawr, a gofynnodd am hances bapur i'w lanhau.

Caiff y rhan fwyaf o blant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt hunangymhelliant i ddewis eu chwarae eu hunain ac arwain eu gweithgareddau. Er enghraifft, cymeron nhw eu tro i actio rôl gyrrwr tractor a'r llwythwr.

Mae plant yn mwynhau cyfleoedd rhagorol i ddatblygu annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain yn llwyddiannus, a datrys problemau'n hyderus. Er enghraifft, yn ystod chwarae yn yr awyr agored, maent yn archwilio sut gallant ddefnyddio rhaff. Maent yn ei lapio o gwmpas darn o bren i wthio a thynnu. Maent yn canfod sut i ddatod y rhaff ac yn ymchwilio sut gallent wneud i'r rhaff ymdroelli ar y llawr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu hyder wrth gymhwyso ystod eang o fedrau. Maent yn cyfathrebu’n hapus â’i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig, er enghraifft wrth esbonio bod Gino, y ci tegan, eisiau mynd am dro y tu allan. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau llythrennedd cynnar datblygedig, ac yn ymgysylltu â llyfrau a storïau, gan eistedd gyda’i gilydd wrth iddynt fwynhau’r lluniau a siarad am y stori. Maent yn ymateb yn hyderus i sbardunau a chwestiynau ymarferwyr ynglŷn â pham roeddent wedi dod â’u hanifail anwes i weld y milfeddyg. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth briodol o lythrennau a synau, a gall ychydig ohonynt ysgrifennu eu henwau yn annibynnol. Yn ystod eu chwarae, maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu, er enghraifft pan fyddant yn nodi’r driniaeth orau ar gyfer eu hanifail anwes y bu’n rhaid iddo ymweld â’r filfeddygfa. Mae hyder y rhan fwyaf o blant wrth ddefnyddio’r Gymraeg yn datblygu’n briodol. Maent yn mwynhau ymuno â rhigymau a chaneuon cyfarwydd, ac yn deall geirfa gynyddol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel sy’n briodol, er enghraifft i gefnogi eu dealltwriaeth o’r berthynas rhwng llythrennau a synau.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda yn unol â’u cyfnod datblygu. Mae bron pob un o’r plant yn dangos hyder wrth benderfynu pa offer i’w defnyddio a pha weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau treulio cyfnodau estynedig yn chwarae ag adnoddau penodol, ac yn cydweithio’n dda â’u ffrindiau, er enghraifft wrth weithio gyda’i gilydd i lwytho’r trelar â cherrig bach yn barod i fynd i mewn i gae’r ffermwr. Maent yn datblygu cryfder corfforol a chydsymud da trwy amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft wrth helpu ei gilydd i ddringo ar dop y twnnel.

Mae llawer o blant yn greadigol iawn, yn dewis amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Maent yn defnyddio siswrn yn ofalus ac yn ddiogel wrth dorri allan gwahanol siapiau i ddatblygu eu dyluniadau eu hunain. Maent yn defnyddio glud a phaent yn aeddfed, ac yn dysgu faint o baent sydd ei angen arnynt o’r botel bwmpio ar gyfer gwahanol rannau o’u peintio, ac wrth gymysgu gwahanol liwiau.

Mae gan lawer o blant fedrau rhifedd da ac maent yn mwynhau chwarae ag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif i ddeg yn hyderus mewn grwpiau, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o’r berthynas rhwng rhifau a grwpiau o wrthrychau. Maent yn dechrau adnabod gwahanol siapiau ac yn trafod nifer yr ochrau. Mae llawer o blant yn dangos dyfalbarhad trwy ddychwelyd at adnoddau fel y glorian gydbwyso i ymchwilio i faint o allweddi bach all ffitio yn y potiau ar y naill ochr a’r llall. Mae llawer o blant yn dda yn datrys problemau, er enghraifft yn gweithio gyda’i gilydd i adeiladu tŵr gan ddefnyddio siapiau tri dimensiwn. Penderfynon nhw ddefnyddio siapiau oedd yn parhau i fynd yn llai, gan lwyddo hyd nes roedd angen iddynt osod siâp ar dop pyramid, a achosodd iddynt orfod aros a meddwl eto.

**Gofal a datblygiad:**

Mae gan ymarferwyr ymagwedd gyfeillgar a gofalgar, ac maent yn rheoli rhyngweithio â phlant yn gadarnhaol. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a lles personol. Maent yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae trefniadau'r lleoliad i ddiogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Caiff digwyddiadau eu cofnodi'n briodol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynnwys digon o fanylion am y camau a gymerwyd. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion am ddamweiniau a digwyddiadau yn gywir ac fe gaiff y rhain eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod yn cael gwybodaeth gyson. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân i wneud yn siŵr fod plant yn gwybod beth i'w wneud os oes rhaid iddynt adael yr adeilad mewn argyfwng, a chofnodir y canlyniad.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, ac mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta'n iach, bod yn egnïol a chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach. Mae gweithdrefnau newid clytiau yn cyd-fynd â chanllawiau presennol ar reoli heintiau. Mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu datblygu eu harferion hylendid personol yn dda. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal.

Mae ymarferwyr yn ymatebol i blant, ac yn gwrando ar eu dewisiadau a'u ceisiadau, ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu chwarae a dysgu plant yn llwyddiannus.

Ar hyn o bryd, mae ymarferwyr wrthi'n cyflwyno a pharatoi i ddarparu'r cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir. Maent yn canolbwyntio'n eithriadol o dda ar fuddiannau'r plentyn, ei anghenion a'i ddatblygiad unigol. Mae ymarferwyr yn darparu cymorth addas a sensitif ar gyfer plant y gallai fod ganddynt angen dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n dda i fagu hyder a gwydnwch plant. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd diddorol, sy'n cael eu harwain gan ddewisiadau a phenderfyniadau'r plentyn. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn effeithiol ac wedi defnyddio'r arsylwadau hyn i greu profiadau chwarae a dysgu ysgogol ar gyfer y plant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd amrywiol a gwerthfawr i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas, er enghraifft trwy fynd ar deithiau cerdded natur i bigo mwyar duon a defnyddio sudd y mwyar duon i beintio llun. Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymgysylltu â'r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r siop leol i brynu cynhwysion i wneud rysáit o'u dewis nhw. Caiff dathliadau a gwyliau eu harchwilio'n llwyddiannus trwy ddefnyddio ystod o ddeunyddiau crefft a storïau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddatblygu cynllunio ymatebol. Caiff y sesiynau eu trefnu fel rhai chwarae rhydd yn bennaf, gydag ymarferwyr yn

hwyluso'r dysgu ac yn deall pryd i ymyrryd, a phryd i beidio. Mae gan ymarferwyr ddirnadaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn deall bod angen galluogi plant i ddatblygu hyder trwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ysgogol, gan addasu ac ymchwilio gyda'i gilydd, ac ar eu pen eu hunain. Mae'r lleoliad wedi elwa ar fod yn rhan o gynllun peilot yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu darpariaeth yn unol â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir. Mae arweinwyr yn cynorthwyo ymarferwyr wrth iddynt ddatblygu ymagwedd y lleoliad, ac maent yn ymestyn yr amgylchedd dysgu yn barhaus i sicrhau bod adnoddau'n ysgogol ac yn hygyrch i bawb. Mae ymarferwyr yn fedrus yn y ffordd y maent yn cynorthwyo ac yn annog y plant. Yn aml, maent yn gofyn cwestiynau treiddgar, gan gyfarwyddo'r dysgu weithiau i sicrhau bod y plant yn dirnad agwedd neu sgil penodol, er enghraifft wrth drafod y ffordd fwyaf effeithiol o osod y bont ar y llinell rheilffordd, a sut i ddefnyddio gwahanol adrannau llinell i gyflawni siâp cylch perffaith. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn unol â'u lefel hyder eu hunain, ond collir cyfleoedd weithiau i ddefnyddio'r iaith yn naturiol wrth i'r plant chwarae.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant. Maent yn darparu cyfleoedd i'r plant gymryd cyfrifoldeb cyhyd ag y bo modd am eu gweithredoedd a'u dysgu eu hunain, er enghraifft wrth orfod dychwelyd at y bwrdd byrbryd i roi eu diod o'r neilltu neu dacluso ar eu holau. Mae ymarferwyr yn annog plant ac yn caniatáu amser iddynt ddilyn eu diddordebau eu hunain, datblygu eu medrau a magu hunanhyder.

Mae ymarferwyr yn defnyddio llyfrau ac adnoddau'n fedrus i sbarduno trafodaeth a gwerthfawrogiad o wahaniaethau fel ethnigrwydd ac anabledd, a phwysigrwydd gwerthfawrogi pawb yn gyfartal. Maent yn darparu ystod o gyfleoedd i'r plant ddatblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod am y byd naturiol, er enghraifft wrth wrando ar wahanol synau'r môr mewn detholiad o gregyn hardd. O ganlyniad, mae llawer o blant, ni waeth beth yw eu gallu neu anghenion dysgu ychwanegol, yn magu hyder ac yn datblygu gwydnwch.

Caiff cyfleoedd asesu eu cynllunio fel rhan naturiol o'r broses ddysgu. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar grŵp bach o blant bob wythnos, ac yn nodi eu datblygiad ar draws ystod o fedrau a chymwyseddau. Hefyd, maent yn cynnal cofnod parhaus o gynnydd pob plentyn dros gyfnod ac yn rhannu'r holl wybodaeth yn briodol ag ymarferwyr eraill. Un maes blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad eleni yw cynyddu dealltwriaeth yr ymarferwyr o wahanol sgemâu. Mae gan bob un ohonynt grynodeb o wahanol sgemâu yn eu bagiau gwaith, y maent yn cyfeirio atynt pan fydd angen.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân ble gall plant chwarae a dysgu'n effeithiol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac yn cael ei gynnal yn dda dan do ac yn yr awyr agored. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion plant, ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.

Caiff asesiadau risg eu hysgrifennu'n gynhwysfawr ac maent yn nodi'r peryglon posibl i blant, a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Ers dechrau COVID-19, mae arferion glanhau wedi cynyddu, ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn dilyn canllawiau presennol. Mae arferion hylendid boddhaol a mesurau rheoli heintiau addas ar waith, sy'n helpu tuag at leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelwch a lles plant. Maent yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am sut yr ymdrinnir ag argyfyngau. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r offer yn y cit cymorth cyntaf wedi dod i ben. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda ar draws holl ardaloedd y lleoliad. Mae cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn llwyddiannus. Mae mannau storio dan do ar gyfer teganau ac offer yn addas ac yn hygyrch i blant. Mae ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u trefnu'n ddeniadol. Ceir detholiad da o adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau naturiol i ddatblygu medrau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae corneli cysurus wedi eu trefnu'n briodol i blant orffwys, ac mae ardaloedd ar gyfer cysgu wrthi'n cael eu datblygu. Mae digonedd o deganau, adnoddau a dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal.

Mae arweinwyr yn codi ymwybyddiaeth plant am y byd o'u cwmpas i ddysgu am y gymdeithas ehangach. Er enghraifft, mae doliau a modelau bach yn dangos pobl o wahanol ddiwylliannau. Mae arweinwyr wedi prynu adnoddau newydd ac wedi datblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored, gan roi mwy o gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr iach ym mhob tywydd. Mae'r ardal hon yn hygyrch i blant ei defnyddio'n rhydd trwy gydol y dydd. Mae'r ardal yn yr awyr agored wedi'i threfnu'n ddeniadol ag ystod o offer i blant ddewis o'u plith, a datblygu eu medrau corfforol a'u medrau echddygol manwl. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod plant yn cael cyfle i ddysgu am y byd naturiol ac wedi trefnu ardaloedd er mwyn iddynt ddysgu am blannu a thyfu blodau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan arweinydd y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth, ac mae'n gweithio'n agos ac yn llwyddiannus gyda'r unigolyn cofrestredig sy'n cadeirio'r pwyllgor rheoli. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio'n gadarn ar sicrhau darpariaeth deg i'r holl blant, ac ar y ddealltwriaeth fod dim byd yn amhosibl. Mae staff yn rhannu disgwyliadau uchel yr arweinydd o'r holl blant. Maent yn ystyried bod lles plant yn hollbwysig; y sylfaen iddynt adeiladu'r ddarpariaeth ehangach. Dangosir hyn gan y ffordd y mae'r plant wedi setlo ac yn hapus yn y lleoliad. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi sefydlu perthynas gref a chefnogol gyda rhieni a gofalwyr. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth am eu plentyn gydag ymarferwyr, ac maent yn gwerthfawrogi'r adborth rheolaidd y maent yn ei gael am gynnydd a lles eu plentyn. Mae hyn wedi bod yn hynod bwysig yn ystod pandemig COVID-19, pan rannwyd y wybodaeth yn llwyddiannus trwy gymwysiadau ar-lein defnyddiol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu proses drylwyr o hunanwerthuso rheolaidd yn seiliedig ar ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid. Mae'r broses hon yn amlygu ystod addas o gryfderau a meysydd i'w gwella a'r camau sydd eu hangen i wneud y gwelliannau hyn. Fodd bynnag, ni roddir ystyriaeth ddigonol bob amser i sut bydd arweinwyr yn gwybod os ydynt wedi llwyddo i gyrraedd eu nodau, yn enwedig o ran datblygu'r cwricwlwm.

Ceir datganiad diben wedi'i ddiffinio'n glir a'i rannu ac mae'r ddogfen yn rhoi darlun cywir o'r hyn mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae arweinwyr y lleoliad, yn cynnwys y pwyllgor rheoli, yn sicrhau yr eir i'r afael â phryderon a chwynion mewn modd amserol a phriodol. Mae holiaduron i rieni a thrafodaethau â rhieni a gofalwyr yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau bod arweinwyr yn ymateb i unrhyw faterion yn

brydlon. Fodd bynnag, ni chaiff cofnodion y lleoliad a gwybodaeth berthnasol a gedwir am staff a phlant eu coladu'n effeithiol bob amser i sicrhau bod arweinwyr yn goruchwylio'r wybodaeth hon yn y modd mwyaf effeithlon.

Mae'r lleoliad yn dyrannu elfennau o gyllid grant yn briodol. Ceir ystod addas o adnoddau, y mae arweinwyr ac ymarferwyr yn eu datblygu'n barhaus i sicrhau bod plant yn cael eu hysgogi a'u cyffroi gan eu hamgylchedd dysgu. Caiff ymarferwyr ystod effeithiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i'w cynorthwyo yn eu rolau. Mae'r ffordd y mae'r lleoliad wedi newid ei addysgeg yn unol â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir yn dangos eu haddasrwydd a'u hagwedd gadarnhaol tuag at newid.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref â'r ysgol gynradd leol. Maent yn rhannu cyfleoedd i gydweithio, er enghraifft trwy sicrhau negeseuon cyson at rieni a gofalwyr yr ysgol a'r lleoliad. Ceir perthynas gydweithredol gref ag ymgynghorydd y blynyddoedd cynnar yn yr awdurdod lleol hefyd, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i rannu profiadau, arferion a dysgu proffesiynol gyda lleoliadau eraill.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/04/2022